

[tudalen 1]

Polisi Asesu Canolfan Ysgol Eirias (FERSIWN DDRAFFT 3)

Canllawiau CBAC: *Wrth i ganolfannau cyflwyno eu polisiâu a amlinellir yn llyfryn gofynion a chanllawiau CBAC, rhaid iddynt sicrhau bod y saith maes a nodwyd yn cael eu cynnwys yn eu cyflwyniad. Nid oes angen i ganolfannau strwythuro eu polisi gan ddefnyddio penawdau CBAC ar gyfer pob un o'r saith maes. Yr unig ofyniad yw bod y saith maes yn cael eu cynnwys yn y polisi. Fodd bynnag, efallai y bydd rhai canolfannau am gwblhau hyn mewn templed Word, ond nid oes rheidrwydd iddynt wneud hynny.*

Enw'r Ganolfan: Ysgol Eirias	Rhif y Ganolfan: 68106
Mabwysiadwyd y polisi gan Fwrdd y Llywodraethwyr ar (nodwch y dyddiad):	Cyhoeddwyd y polisi i'r staff ar (nodwch y dyddiad):
Yr aelod o staff sy'n gyfrifol am y polisi:	

Datganiad o Ddiben

Diben y Polisi Canolfan hwn yw:

- Sicrhau y caiff Graddau a Bennir gan Ganolfannau (GBG) eu dyfarnu'n deg, yn gyson, heb unrhyw ragfarn ac yn effeithlon o fewn adrannau a rhyngddynt, ac y cânt eu cynnal drwy'r broses
- Sicrhau y rhoddir prosesau effeithiol ar waith gyda chanllawiau clir a chymorth i staff
- Sicrhau bod pob aelod o'r staff sy'n rhan o'r prosesau yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau yn glir
- Cefnogi athrawon i wneud penderfyniadau ar sail tystiolaethyn unol â gofynion Cymwysterau Cymru
- Cyflawni prosesau sicrhau ansawdd mewnol o safon uchel wrth ddyrannu GBGau
- Sicrhau bod y ganolfan yn cyflawni ei rhwymedigaethau mewn perthynas â deddfwriaeth cydraddoldeb ac anabled
- Sicrhau bod y ganolfan yn bodloni'r holl ofynion a nodir yn yr Amodau Rheoliadol Arbennig, a chyfarwyddiadau'r Cyd-gyngor Cymwysterau a Sefydliad Dyfarnu ar gyfer cymwysterau Haf 2021.

Bydd pawb sy'n ymwneud â'r broses o ddyfarnu Graddau a Bennir gan Ganolfannau yn gyfrifol am ddarllen a deall y polisi a'i roi ar waith.

Noder: mae Atodiadau yn ategu'r polisi hwn.

[tudalen 2]

1. Rolau a Chyfrifoldebau

Bydd Cadeirydd y Llywodraethwyr yn gofyn i'r Corff Llywodraethol llawn gymeradwyo'r polisi hwn, a bydd yn ei ymgorffori yn nogfennaeth polisi'r ysgol

Bydd y Pennaeth a'r Grŵp Arwain yn sicrhau bod yr holl asesiadau GBG a'r prosesau cysylltiedig yn cael eu cynnal yn iawn. Bydd hyn yn cynnwys llunio'r Polisi Canolfan hwn, y broses ar gyfer cynnal asesiadau: cynnal prosesau casglu data a Sicrhau Ansawdd yn briodol: sicrhau bod budd pennaf y dysgwyr yn parhau i fod yn ganolog i'r broses, gan roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r rhieni a'r dysgwyr drwyddi draw, a darparu unrhyw hyfforddiant angenrheidiol i'r staff. Bydd aelodau o'r grŵp Arweinyddiaeth yn sicrhau ansawdd y Graddau i'w dyfarnu i sicrhau cysondeb o ran canlyniadau a gwneud yn siŵr eu bod yn gyson â'r graddau a ddyfarnwyd mewn blynyddoedd blaenorol.

- Bydd y **Cydlynnydd ADY** yn sicrhau bod pob aelod o'r staff yn ymwybodol o'r trefniadau mynediad angenrheidiol, ynghyd â'r addasiadau rhesymol i ddysgwyr sydd â hawl i fanteisio ar y rhain. (*Atodiad 1*) Bydd y Cydlynnydd ADY hefyd yn cydlynu'r cymorth ychwanegol a ddarperir fel y byddai'n ei wneud mewn amgylchiadau arferol.

- **Penaethiaid Cyfadran a/neu Benaethiaid Pwnc.** Bydd y penaethiaid pwnc yn gweithio'n agos gyda'u Pennaeth Cyfadran a'r Cydlynnydd ADY i sicrhau bod asesiadau'n cael eu cynnal yn briodol (gan gynnwys darparu trefniadau mynediad), e.e. paratoi dysgwyr, casglu a chofnodi marciau, storio asesiadau yn ddiogel a dilyn y broses Sicrhau Ansawdd a nodir yn y ddogfen hon. Bydd Pennaeth y Gyfadran/y Pennaeth Pwnc yn paratoi cynllun asesu pwnc (*Atodiad 3*)

Ar y cyd ag athrawon dosbarth, bydd Penaethiaid Cyfadran yn nodi unrhyw achosion o wrthdaro buddiannau a'r ffordd y cânt eu rheoli mewn cydweithrediad â'r Uwch Aelod o staff sy'n goruchwyllo arholiadau, a chanllawiau gan CBAC.

Bydd Penaethiaid Cyfadran yn nodi ac yn diwallu unrhyw anghenion hyfforddi ar gyfer y staff sy'n ymwneud ag asesiadau i'w galluogi i gynnal a gweinyddu'r asesiadau yn gywir.

- Bydd y **Staff Addysgu** yn gweithio o dan gyfarwyddyd Pennaeth y Gyfadran/y Pennaeth Pwnc, gan sicrhau eu bod yn dilyn y polisi hwn ynghyd â chynllun asesu'r pwnc wrth baratoi'r dysgwyr a chynnal asesiadau. Bydd hyn yn cynnwys nodi'r dysgwyr hynny sydd â hawl i gael trefniadau mynediad ac addasiadau rhesymol, sicrhau eu bod yn cael yr hawl honno a bod y prosesau marcio a sicrhau ansawdd o fewn y cyfnod penodol o amser.

Bydd athrawon yn cadw'r holl dystiolaeth y mae gradd dysgwr yn seiliedig arni, gan gynnwys copïau o waith dysgwyr ac unrhyw gofnodion o farciau, a gaiff eu cadw'n ddiogel. Bydd angen tystiolaeth o'r fath i gefnogi'r broses sicrhau ansawdd a'r broses apelio. Ni fydd athrawon yn rhoi cyfle i fyfyrwyr wella eu gwaith ar ôl iddynt ei gyflwyno.

- **Y Swyddog Arholiadau** sy'n gyfrifol am reoli'r gwaith o weinyddu cymwysterau, gan gynnwys cydgysylltu'r gwaith o goladu cofrestriadau dysgwyr yn ôl y cymwysterau priodol, yn ogystal â chefnogi staff addysgu a thîm arwain yr Ysgol,

Bydd y Swyddog Arholiadau yn rhoi gwybodaeth i'r staff am roi ystyriaeth arbennig nad yw'n digwydd yn yr un ffordd ag arfer eleni. Ystyriaeth arbennig. (*Ar gyfer Atodiad Staff 2*) fe'i dyfernir drwy ddewis gwaith sydd wedi'i gwblhau pan nad oedd yr amgylchiad arbennig yn effeithio ar y dysgwr.

Mae pawb sy'n rhan o'r broses o gynhyrchu Graddau a Bennir gan Ganolfannau yn gyfrifol am ddarllen a deall y polisi a'i roi ar waith.

[tudalen 3]

2. Cynlluniau Asesu Pwnc

Bydd pob pwnc yn paratoi cynllun sy'n amlinellu'r ffordd y caiff graddau eu dyfarnu. Bydd hyn yn cynnwys y dystiolaeth i'w defnyddio, y ffordd y bydd graddau'n cael eu dyfarnu, dyddiad yr asesiadau arfaethedig, y systemau asesu gan gynnwys lefel rheolaeth, a pha drefniadau sicrhau ansawdd fydd ar waith i sicrhau cysondeb a thrylwyrdd.

Bydd pob cynllun pwnc hefyd yn amlinellu'r ffordd yr eir i'r afael â threfniadau mynediad a materion sy'n ymwneud â chydraddoldeb. Bydd gofynion hyfforddi hefyd yn cael eu nodi yn y cynllun pwnc (Atodiad 3).

Bydd y rheolwr llinell perthnasol yn y Tîm Arweinyddiaeth yn sicrhau ansawdd cynlluniau asesu pwnc, ac yna ar y cyd gan y Pennaeth Cynorthwyol cyfrifol, Mr P Jones.

Ar gyfer pob cymhwyster, bydd athrawon yn defnyddio fframweithiau asesu CBAC sy'n cynnwys disgrifyddion ar gyfer graddau allweddol. Bydd tystiolaeth gadarn yn sail i bob gradd a ddyfernir gan yr ysgol.

Wrth bennu'r radd, gellir defnyddio'r mathau canlynol o dystiolaeth ym mhob cymhwyster:

Cwestiynau wedi'u haddasu o hen bapurau.

Bydd yr ysgol yn defnyddio hen bapurau CBAC wedi'u haddasu wrth osod tasgau er mwyn helpu i bennu gradd ar gyfer pob cymhwyster. Sicrhawyd ansawdd yr hen bapurau wedi'u haddasu yn allanol eisoes; cânt eu cefnogi'n llawn gan gynlluniau marcio; ac mae dysgwyr a staff yn gyfarwydd â nhw. Bydd athrawon yn sicrhau bod yr hen bapurau hyn yn cael eu cynnwys yn eu dulliau addysgu a dysgu arferol, yn lle gweithgareddau eraill a gynhelir yn ystod gwersi.

Asesiadau Diarholiad

Mae asesiadau diarholiad yn bodoli mewn sawl cymhwyster. Bydd athrawon yn defnyddio perfformiad dysgwyr yn yr elfen hon er mwyn helpu i gyfrannu tuag at bennu'r radd. Fodd bynnag, bydd angen i athrawon ystyried pwysoliad yr elfen hon er mwyn sicrhau bod y radd a ddyfernir yn adlewyrchu'r safon gyffredinol yn gywir.

Tystiolaeth gyfranogol arall

a) Gall athrawon ddefnyddio tystiolaeth o hen bapurau CBAC a gwblhawyd yn flaenorol, y sicrhawyd eu hansawdd yn allanol, ac a gyhoeddwyd gyda chynllun marcio wedi'i gymeradwyo, a lle cawsant eu cwblhau o dan amodau a reolir yn briodol.

b) Asesiadau a gynhaliwyd cyn cyhoeddi'r dull y cytunwyd arno gan CBAC e.e. ffug arholiadau. Gellir defnyddio'r math hwn o dystiolaeth i gadarnhau dyfarniad ond nid o reidrwydd i benderfynu ar ddyfarniad. Y rheswm am hyn yw na fyddai dysgwyr wedi bod yn ymwybodol y byddai angen y darn hwn o waith i bennu ei radd ar adeg ei gwblhau. Nod hyn yw sicrhau tegwch a chyfiawnder i bob dysgwr.

Bydd nifer y darnau o dystiolaeth sy'n ofynnol i bennu gradd yn amrywio fesul cymhwyster. Bydd athrawon yn sicrhau bod digon o gyfleoedd i ddysgwyr ddarparu tystiolaeth glir i ddangos cymhwysedd yn erbyn themâu allweddol cymhwyster; caiff themâu allweddol o'r fath eu dogfennu yn fframweithiau pwnc CBAC.

[tudalen 4]

Caiff staff eu cyfarwyddo i ddefnyddio deunyddiau asesu safonedig. Fodd bynnag, os yw meysydd pwnc yn penderfynu creu eu hasesiad eu hunain, mae'n RHAID iddynt ymgynghori â'u rheolwr llinell yn y lle cyntaf, ar ôl darllen Canllaw Creu Asesiadau y Ganolfan. Bydd angen i staff pwnc hefyd ddangos tystiolaeth eu bod wedi cwblhau hyfforddiant ar-lein.

Ni fydd y dystiolaeth a gynhrychir yn cael ei chwblhau ar ffurf arholiad, h.y. yn y neuadd gyda goruchwylwyr allanol.

Yn y cynllun asesu pwnc, bydd Pennaeth y Gyfadran/y Pennaeth Pwnc yn nodi pa asesiadau y byddant yn eu defnyddio, a sut y bydd yn Sicrhau Ansawdd y canlyniadau. Cynhelir prosesau sicrhau ansawdd ar lefel Adrannol ac ar lefel Arwain a chyfeirir atynt yn fanylach isod.

3. Asesiadau a Ddyfeisir gan Ganolfannau

Lle y bo'n bosibl, rhoddir deunyddiau asesu safonedig i'r staff eu defnyddio.

Os bydd swyddog maes pwnc yn penderfynu defnyddio asesiad a ddyfeisir gan ganolfan, dylai drafod goblygiadau gwneud hynny yn gyntaf, gan amlinellu ei gynlluniau i'w reolwr llinell. RHAID i weithgareddau fodloni'r meini prawf asesu a chyfeirio'n ofalus at Ganllaw Creu Asesiadau Canolfannau CBAC.

Dylai'r staff addysgu hefyd ddangos eu bod yn bresennol mewn sesiynau hyfforddi CBAC.

4. Cynnal Asesiadau

Cynhelir asesiadau o dan lefel o reolaeth sy'n sicrhau bod y Ganolfan yn fodlon mai gwaith y dysgwyr eu hunain yw'r gwaith a gaiff ei gyflawni. Bydd meysydd pwnc yn dogfennu'r systemau asesu yn eu cynlluniau asesu pwnc:

- Lleoliad yr asesiad
- Lefel y rheolaeth
- Natur a hyd yr asesiad
- Trefniadau mynediad

O ran asesiadau diarholiad, os bydd sefyllfa lle caiff lefelau'r rheolaeth eu newid hanner ffordd drwy'r broses a bod modd cwblhau gwaith heb y lefel arferol o oruchwyliaeth, bydd angen ystyried sut y gellir cymharu gwaith a gafodd ei oruchwyllo, â gwaith sydd eisoes wedi'i gwblhau heb oruchwyliaeth.

Caiff y gwaith ei gwblhau gan ddysgwyr yn annibynnol, o dan lefelau tebyg o reolaeth y mae athrawon yn eu defnyddio ar gyfer trefniadau presennol, megis asesiadau diarholiad. Mae hyn er mwyn sicrhau mai tystiolaeth y dysgwr ei hunain yw'r dystiolaeth a gyflwynwyd. Lle

bynag y bo modd, caiff y gwaith ei gwblhau yn y dosbarth ac yn lle gweithgareddau ystafell ddosbarth arferol. Mae'n bosibl y bydd achlysuron pan fydd angen cwblhau gwaith gartref, e.e. os bydd cyfyngiadau symud cenedlaethol neu os bydd angen hunanynysu.

Bydd yr ysgol yn cyflwyno mesurau lliniaru ychwanegol ar y pwynt hwn er mwyn sicrhau mai gwaith y dysgwr yw ei waith ei hun, cyn belled ag y bo'n bosibl.

[tudalen 5]

Bydd yr ysgol hefyd yn ystyried gwaith a gynhyrchwyd gan y dysgwr yn erbyn gwaith a aseswyd yn flaenorol i gadarnhau dilysrwydd; mae hyn yn berthnasol iawn pan fo'r dystiolaeth a gyflwynir yn annodweddiadol o safon arferol y dysgwr. Gall staff gynnal rhagor o weithgareddau gyda dysgwyr er mwyn cadarnhau mai gwaith y dysgwr ei hun yw'r gwaith. E.e. sesiwn Holi ac Ateb gyda'r dysgwr neu weithgaredd asesu ychwanegol.

Cyn belled ag y bo'n bosibl, caiff asesiadau eu cwblhau ar yr un pryd mewn pwnc.

Fel gyda phob asesiad, mae angen ystyried sut y rhoddir adborth i'r dysgwr a chofnodi hyn cyn dyfarnu'r radd derfynol.

Ni chaiff penderfyniadau yn ymwneud â'r radd a ddyfarnwyd eu cyfleu i fyfyrwyr a/neu rieni/gan aelodau unigol o staff yn y pwnc tan y dyddiad penodol ym mis Mehefin.

Yn unol â'r polisiau presennol mewn perthynas ag Arholiadau Cyhoeddus ac Asesiad a Reolir, bydd yr ysgol yn sicrhau ei bod yn cydymffurfio â'i Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus.

Bydd yr ysgol yn sicrhau ei bod yn cydymffurfio â'r rheoliadau diogelu a phrosesu data.

5. Sicrhau Ansawdd Penderfyniadau Asesu a Graddio

Bydd pob athro sy'n dysgu'r pwnc yn gyfrifol am **asesu gwaith**. Byddant yn asesu gwaith myfyrwyr eu dosbarth gan ddefnyddio beiro COCH a'r cynlluniau marcio CBAC priodol i gefnogi'r dasg o ddyfarnu graddau yn gywir. Bydd yr athro pwnc yn cofnodi'r marc a'r radd a ddyfarnwyd. Caiff copïau ffisegol o dystiolaeth eu cadw a'u storio'n ddiogel.

Penderfyniadau Graddio Cyffredinol

Penderfynir ar raddau drwy ddefnyddio dull cyfannol ond mae'n rhaid i dystiolaeth o gyrrhaeddiad mewn meysydd y mae dysgwr wedi'u hastudio fod yn sail i bob gradd.

Ni chaniateir i athrawon pwnc gyhoeddi Gradd a Bennir gan Ganolfan yn seiliedig ar ragfynegiad proffesiynol nac ar botensial dysgwr mewn pwnc penodol. Bydd yn ofynnol i athrawon ddefnyddio eu barn broffesiynol a phenderfynu a yw'r wybodaeth a'r sgiliau a ddangoswyd gan ddygwr yn cyrraedd y safon arferol ar gyfer gradd benodedig.

Nid yw'r safon a ddisgwylir ar gyfer unrhyw radd benodol yn is na blynyddoedd blaenorol, ond mae'n anochel y bydd maint y gwaith a gwblheir yn y fanyleb yn is.

Bydd yn ofynnol i'r ysgol ddefnyddio dyfarniadau 'ffit orau' wrth bennu gradd.

Nid yw'n ofynnol i ddysgwyr ddangos pob agwedd ar ddisgrifiyd gradd i ennill y radd. Dylid dyfarnu gradd i ddysgwyr a gaiff ei chefnogi gan dystiolaeth ar draws amrywiaeth o gynnwys digonol, fel y'i pennwyd gan CBAC. Gellir cyflawni'r un radd drwy ddangos cyfuniadau gwahanol o wybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth.

Os na fydd dystiolaeth ddigonol, neu os bydd dystiolaeth islaw'r hyn sy'n ofynnol ar gyfer y radd isaf a ddyfernir mewn cymhwyster, caiff gradd U ei dyfarnu.

Cyfeirio at Ddogfen Raddio CBAC yma

[tudalen 6]

Bydd yr ysgol yn dogfennu pob penderfyniad drwy'r **cofnod gwneud penderfyniadau dysgwr**.

Bydd y ddogfen hon yn amlinellu'r holl dystiolaeth a ddefnyddir i bennu gradd ac yn cynnig rhesymeg dros y radd a ddyfarnwyd.

Ar y ffurflen hon rhoddir esboniad clir er mwyn helpu rhieni a dysgwyr i ddeall y rheswm dros y radd a ddyfarnwyd. Gall hyn fod yn sail i unrhyw ymholiad apêl.

Sicrhau Ansawdd

Cyflwyno prosesau o'r llynedd.

Diben prosesau safoni a sicrhau ansawdd mewnol yw:

- Rhoi hyder i athrawon yn y Graddau a Bennir gan Ganolfannau y maen nhw wedi'u dyrannu
- Sicrhau tegwch a gwrthrychedd penderfyniadau
- Sicrhau cysondeb wrth gymhwyso'r meini prawf a'r safonau asesu.
- Datrys unrhyw wahaniaethau barn athrawon ynghylch graddau a ddyfarnwyd.

Bydd prosesau safoni mewnol hefyd yn sicrhau bod dysgwyr â gwahanol nodweddion gwarchodedig yn cael eu cynnwys yn y dull samplu a'u croeswiro (er mwyn cydymffurfio â deddfwriaeth Cydraddoldeb ac Anabledd).

Bydd prosesau safoni mewnol yn cynnwys pawb sy'n ymwneud â'r gwaith o addysgu'r pwnc, croeswiro'r gwaith marcio ar draws yr ystod lawn o farciau a chynnwys dysgwyr o bob dosbarth.

Bydd pob maes pwnc yn pennu maint y sampl gymedroli fewnol ac yn nodi unrhyw achos o wrthdaro buddiannau e.e. staff cydweithwyr â'u plentyn yn y grŵp blwyddyn/maes pwnc neu ddosbarth. Yr eithriad i hyn yw pan fo maint carfan yn llai na 10; yn yr achos hwn bydd carfan y dosbarth cyfan yn cael ei chymedroli.

Bydd Pennaeth y Gyfadran/y Pennaeth Pwnc yn sicrhau bod y sampl o waith i'w chymedroli yn cwmpasu'r sbectwm llawn o raddau a gwaith gan yr holl athrawon sydd wedi paratoi dysgwyr ac wedi asesu gwaith.

Mewn pynciau lle ceir mwy nag un athro a/neu ddsbarth yn yr adran, mae'n ofynnol i brosesau Safoni Mewnol gael eu cynnal.

Bydd pob darn o waith a gaiff ei samplu'n cael ei farcio'n ddiennw er mwyn lleihau'r risg o ragfarn ymwybodol/rhagfarn ddiarwybod.

Bydd angen i Benaethiaid Cyfadran hefyd ystyried a oes unrhyw achos o wrthdaro buddiannau mewn perthynas ag athrawon yn asesu gwaith eu teulu neu ffrindiau agos.

Bydd aelodau o'r staff pwnc yn cynnal gweithgareddau cymedroli (i sefydlu cysondeb yn y dull asesu) cyn gynted ag y bo'n rhesymol ac yn ymarferol, ar ôl i'r dystiolaeth gael ei chyflwyno.

[tudalen 7]

Pan gaiff darn o dystiolaeth ei gymedroli, bydd aelod arall o'r staff yn gwneud sylwadau ychwanegol gan ddefnyddio beiro GLAS; Bydd y Pennaeth Pwnc yn adolygu unrhyw anghysondebau, gan wneud sylwadau gan ddefnyddio beiro GWYRDD.

Bydd data asesu dysgwyr (h.y. perfformiad blaenorol y disgybl yn y pwnc hwnnw) yn sail i'r trafodaethau ynghylch y penderfyniadau a wneir.

O ganlyniad i'r prosesau cymedroli mewnol, efallai y bydd angen addasu penderfyniad yr athro er mwyn:

- Cyd-fynd â'r safonau fel y cawsant eu sefydlu a'u deall yn y canllawiau a ddarperir.
- Cysoni dyfarniadau â dyfarniadau athrawon eraill yn yr adran.
- Bodloni gofynion mewn perthynas â deddfwriaeth Cydraddoldeb ac Anabledd

Bydd Penaethiaid y Gyfadran yn sicrhau bod y GBGau yn unol â pherfformiad y pwnc yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac yn darparu rhesymeg dros unrhyw amrywiad sylweddol.

Bydd unrhyw amrywiannau, addasiadau ac ati o ganlyniad i'r broses safoni fewnol yn cael eu cofnodi.

Bydd Penaethiaid Cyfadran hefyd yn ystyried amrywiant canlyniadau ysgolion gan ddefnyddio'r adnodd dadansoddi 4 Matrics/ALPs.

Bydd y Grŵp Arweinyddiaeth yn cwblhau proses Sicrhau Ansawdd arall i sicrhau bod y graddau a ddyfarnwyd yn unol â'r rhai o gyfresi arholiadau allanol blaenorol.

Bydd y Grŵp Arweinyddiaeth yn llunio ac yn cyflwyno gwybodaeth gyd-destunol am berfformiad ar gyfer grŵp blwyddyn penodol. Gall hyn gynnwys data MIDYiS, lefelau Cyfnod Allweddol 3, profion Cenedlaethol a data olrhain Cyfnod Allweddol 4. Bydd y wybodaeth hon yn cadarnhau'r data perfformiad.

Cyfeirio at Brosesau Sicrhau Ansawdd Allanol CBAC yma

Bydd yr ysgol yn cymryd rhan mewn trafodaethau rhwng Canolfannau er mwyn adolygu ei phrosesau o bennu graddau gydag arweinyddion mewn Canolfannau eraill. Cynhelir y trafodaethau hyn yn ystod cerrig milltir allweddol y broses, o'r cam cynllunio a'r cam gweithredu i'r cam adolygu canlyniadau. Bwriad y broses hon yw sicrhau ymhellach y caiff y broses o ddyfarnu graddau ei gwneud mewn modd dilys, dibynadwy a theg.

6. Cyfathrebu â dysgwyr a rhieni/gofalwyr

Bydd cyfranogiad dysgwyr a rhieni a defnyddio cynllun cyfathrebu clir a thryloyw yn flaenoriaeth i ennyn hyder yn y dull a ddefnyddir gan yr ysgol.

Rhoddir cynllun cyfathrebu rhieni a dysgwyr ar waith i ddarparu gwybodaeth am y meysydd allweddol.

Cyn y Pasg, rhoddir y canlynol i ddysgwyr:

- Trosolwg o'r broses GBG
- Pryd y bydd asesiadau'n cael eu cwblhau

[tudalen 8]

- Pa wybodaeth a gaiff ei hystyried gan athrawon pwnc wrth bennu eu GBGau.
- Pwysoliad cymesur pob darn o dystiolaeth a osodir fesul pwnc.

Ar ôl i CBAC Sicrhau Ansawdd y Cynllun Asesu Canolfannau, rhoddir copi i rhieni a dysgwyr. Yn ogystal â'r pwyntiau uchod, bydd hyn hefyd yn nodi:

- Sut y cyflawnwyd trefniadau mynediad penodol a pherthnasol ac ystyriaeth arbennig
- Cofnodi dystiolaeth sy'n cyfrannu at bennu gradd eu cymhwyster terfynol
- Y prosesau cymedroli mewnol a gyflawnir gan yr ysgol.
- Cofnodi adolygiadau y gofynnwyd amdanynt gan y dysgwyr a chanlyniad adolygiadau o'r fath (Gweithdrefnau cwyno)

Ar ôl y Pasg a thrwy addysgu a dysgu pwnc, rhoddir gwybod i'r dysgwyr am y canlynol:

- Y dyddiadau asesu ar gyfer eu pynciau
- Y testunau a gwmpesir ym mhob asesiad. Noder na fydd dysgwyr yn cael gweld yr asesiad ymlaen llaw.
- Bydd angen sicrhau mai gwaith y dysgwyr eu hunain yw'r holl waith a gwblheir mewn gweithgareddau asesu ac, os nad yw hyn yn wir, byddai hyn yn cael ei ystyried yn gamymddwyn.
- Eu hawl i'w 'trefniadau mynediad' arferol os yw'n briodol.

Rhoddir gwybod i ddisgyblion am eu Gradd a Bennir gan Ganolfannau ddechrau mis Mehefin 2021.

7. Adolygiadau mewnol a chwynion

Rhoddir gwybod i bob dysgwr am ei hawl i ofyn am adolygiad o'i radd unwaith y caiff graddau dros dro eu cyhoeddi ym mis Mehefin.

Cyfnod 1: Gall dysgwr ofyn am i radd dros dro gael ei hadolygu cyn iddi gael ei chyflwyno i CBAC. Gall hyn arwain at godi neu ostwng gradd. ** Bydd yr aelod o staff sy'n cyflawni'r broses adolygu hon yn aelod o staff gwrthrychol ac nid yr athro pwnc perthnasol.

Cyfnod 2: Ar ôl i'r canlyniadau terfynol gael eu cyhoeddi ar ddiwrnodau canlyniadau, gall dysgwyr apelio i CBAC drwy'r ysgol, os teimlir bod dyfarniad yn afresymol neu'n wallus. Gall CBAC ostwng neu godi'r radd yn dilyn y broses hon.

Cam 3: Gall dysgwyr ofyn am Wasanaeth Adolygu Gweithdrefnau Arholiad gan Cymwysterau Cymru i gadarnhau a yw CBAC wedi dilyn y gweithdrefnau gofynnol.

[tudalen 9]

ATODIAD 2 Canllawiau ar Ystyriaeth Arbennig ar gyfer Haf 2021

Cyflwyniad

Diben y canllaw hwn yw rhoi cyngor i staff y ganolfan wrth wneud penderfyniadau ar raddau a bennir gan ganolfannau.

Mae'r canllaw yn cwmpasu'r cymwysterau canlynol a gymeradwywyd gan Cymwysterau Cymru:

- TGAU, UG a Safon Uwch a gymeradwywyd gan Cymwysterau Cymru
- Tystysgrifau Her Sgiliau
- Lefel 2 a Lefel 3 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau
- Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygu Plant (Uned 216)

Ystyriaeth arbennig

Ni fydd y broses o ganolfannau'n cyflwyno ceisiadau ystyriaeth arbennig i gyrrff dyfarnu yn berthnasol yr haf hwn.

Gan fod y dystiolaeth yn hyblyg ac y gellir ei theilwra i ymgeisydd unigol yn ôl cwmpas y fanyleb, dylid cyfyngu ar achosion o ystyriaeth arbennig. Dylai canolfannau allu dewis gwaith a gwblhawyd gan ymgeiswyr lle nad yw amgylchiadau niweidiol yn effeithio arnynt.

Lle nad yw hyn yn bosibl a lle y gall salwch dros dro, anaf neu ddigwyddiad arall y tu hwnt i reolaeth ymgeisydd fod wedi effeithio ar ei berfformiad mewn asesiadau a ddefnyddir i bennu gradd, dylai athrawon ystyried hyn.

Rhaid i'r digwyddiad ymwneud â pherfformiad(au) yr ymgeisydd ar adeg asesiadau perthnasol sy'n cyfrannu at y radd a bennir gan y ganolfan, ac o ganlyniad i ddigwyddiadau y tu hwnt i'w rheolaeth. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Salwch dros dro neu ddamwain/anaf

- Profedigaeth
- Argyfwng yn y cartref
- Ni wnaeth y ganolfan roi trefniadau mynediad a gymeradwywyd yn flaenorol ar waith.
Ni fydd ymgeiswyr yn gymwys ar gyfer ystyriaeth arbennig os yw'r canlynol yn effeithio ar eu gwaith paratoi ar gyfer eu hasesiadau, neu eu perfformiad yn eu hasesiadau:
 - Salwch hirdymor, anabledd, neu anawsterau eraill oni bai bod y salwch neu'r amgylchiadau yn ymddangos ar adeg yr asesiad
 - Profedigaeth yn digwydd fwy na chwe mis cyn yr asesiad, oni bai bod pen-blwydd marwolaeth ar adeg yr asesiad neu os oes goblygiadau parhaus megis cwêst neu achos llys
- Canlyniadau anufuddhau i reoliadau mewnol y ganolfan.

[tudalen 10]

Ni roddir ystyriaeth arbennig byth o ganlyniad i'r amser addysgu a dysgu a gollwyd. Rhoddir sylw i'r amser addysgu a dysgu a gollwyd yr haf hwn drwy'r dulliau asesu a'r hyblygrwydd a roddir i'r ganolfan yn y cynnwys a gaiff ei asesu, a amlinellir yn y fframweithiau asesu cymwysterau a ddarperir gan CBAC. Darperir gwybodaeth ychwanegol yng nghanllawiau graddio CBAC. Mae graddau a bennir gan ganolfannau yn seiliedig ar y dystiolaeth a gynhyrchir gan yr ymgeisydd ac nid eu potensial.

Sut i wneud cais am ystyriaeth arbennig

Dylai'r ganolfan roi ystyriaeth arbennig ar waith ar lefel asesu drwy gymhwyso lwfans o farciau ychwanegol at bob asesiad yr effeithir arno. Mae maint yr ystyriaeth yn dibynnu ar amseriad, natur a maint y salwch neu amgylchiad arall. Yr ystyriaeth fwayf a roddir fydd 5% o gyfanswm y marciau crai sydd ar gael yn yr asesiad.

Dylid ystyried difrifoldeb yr amgylchiadau a dyddiad yr asesiad mewn perthynas â'r amgylchiadau.

Rhaid i ganolfannau fod yn fodlon bod y mater neu'r digwyddiad wedi cael, neu'n rhesymol debygol o fod wedi cael effaith sylweddol ar allu ymgeisydd i ddangos ei lefel cyrhaeddiad arferol mewn asesiad.

Ni ellir rhoi ystyriaeth arbennig mewn modd cronol. Er enghraifft, oherwydd trawma diweddar ar adeg yr asesiad a'r ymgeisydd yn dioddef o salwch firaol. Dim ond ar gyfer yr anhwylder mwyaf difrifol y dylid rhoi ystyriaeth arbennig.

Mae'r canlynol yn enghreifftiau o amgylchiadau y mae'n rhaid eu cymhwyso ar adeg yr asesiad.

5% Dyma'r ystyriaeth fwyaf a chaiff ei chadw ar gyfer yr achosion mwyaf eithriadol, megis:

- salwch angheuol yr ymgeisydd
- salwch angheuol rhiant/gofalwr
- marwolaeth aelod o'r teulu agos o fewn deufis i'r asesiad
- argyfwng/digwyddiad difrifol ac aflonyddgar iawn ar adeg yr asesiad neu'n agos ato.

4% Problemau difrifol iawn megis:

- salwch sy'n peryglu bywyd yr ymgeisydd neu aelod o'r teulu agos
- llawdriniaeth fawr ar adeg yr asesiad neu'n agos ato
- clefyd difrifol • marwolaeth ddiweddar iawn aelod o'r teulu estynedig
- anaf corfforol difrifol neu barhaol yn digwydd ar adeg yr arholiad
- argyfwng/digwyddiad difrifol ar adeg yr asesiad.

ON Diffinnir 'diweddar iawn' fel o fewn mis i gynnal yr asesiad(au).

3% Categori mwy cyffredin (bydd mwy o achosion yn y categori hwn), gan gynnwys:

- profiad trawmatig diweddar megis marwolaeth ffrind agos neu berthynas bell

[tudalen 11]

- salwch diweddar o natur fwy difrifol
- achos sydyn o gyflwr cynhenid/cyflwr meddygol difrifol neu gyflwr seicolegol
- torri coes neu fraich
- clefyd yr organau
- trawma ymosodiad corfforol cyn asesiad
- argyfwng/digwyddiad diweddar
- gweld digwyddiad a wnaeth beri gofid ar ddiwrnod yr asesiad. ON Diffinnir 'diweddar' fel hyd at bedwar mis cyn cynnal yr arholiad(au).

2% Y categori ystyriaeth mwyaf cyffredin – bydd y rhan fwyaf o achosion o fewn y categori hwn:

- salwch ar adeg yr asesiad
- coes neu fraich a oedd wedi torri yn gwella
- cyfergyd
- effeithiau beichiogrwydd (nid beichiogrwydd ei hun)
- gofid eithafol ar ddiwrnod asesiad (nid straen yn ymwneud â'r asesiad yn unig).

1% Wedi'i gadw ar gyfer mân broblemau:

- salwch ymgeisydd arall sy'n arwain at aflonyddwch yn yr asesiad
- straen neu orbryder y rhagnodwyd meddyginiaeth ar ei gyfer
- clefyd y gwair ar ddiwrnod asesiad
- ychydig o ofid yn deillio o broblemau gweinyddol

Apeliadau

Fel mewn cyfresi eraill, gellir cyflwyno apeliadau ar sail cymhwyso ystyriaeth arbennig.

[tudalen 12]

Atodiad 3 Graddau a Bennir gan Ganolfannau – Cynllun Asesu Pwnc

Cyfadran: Pwnc:

Nifer y cofrestrïadau:

Ydych chi wedi darllen y Polisi Asesu Canolfannau a Sicrhau Ansawdd?

Ydw

Nac ydw

Diweddarwyd

TGAU/AS/U2/Arall:

<p>Ticiwch un i nodi natur yr asesiad rydych yn ei ddefnyddio</p> <ul style="list-style-type: none">• Deunyddiau Asesu Safonedig (SAMs)?• Cyfuniad o ddeunyddiau asesu safonedig ac Aseidiadau a Ddyfeisir gan Ganolfannau?• Aseiad a Ddyfeisir gan Ganolfan (Aseiad rydych wedi'i greu) <p>Amlinellwch yn fras pam rydych wedi dod i'r penderfyniad hwn</p> <p>A oes angen gwneud unrhyw hyfforddiant?</p> <p>Oes</p> <p>Nac oes</p>	<p>Os ydych yn bwriadu defnyddio deunyddiau asesu rydych wedi'u creu eich hun, cadarnhewch eich bod wedi darllen a deall y canlynol:</p> <p>Cewch eich cyfarwyddo i ddefnyddio'r deunyddiau asesu safonedig.</p> <p>Rydych wedi trafod goblygiadau eich cynlluniau gyda'ch rheolwr llinell</p> <p>Canllaw Creu Aseidiadau Canolfannau CBAC</p> <p>Mae eich asesiad yn bodloni'r holl feini prawf asesu</p> <p>Bod angen i staff gwblhau'r hyfforddiant ar-lein sydd i'w weld ar wefan ddiogel CBAC</p> <p>Llofnodwyd gan y Pennaeth Pwnc</p> <p>Pennaeth y Gyfadran</p>
---	---

					Rheolwr Llinell
Dewis o Aseidiadau					
Gweithgaredd asesu	Deunyddiau Asesu Safonedig neu Aseidiadau a Ddyfeisir gan Ganolfannau	Gweithgaredd Asesu e.e. Papur 1 2018	Papur haenog	Dyddiad/au yr asesiad	
1					<p>A yw'n ofynnol i'r asesiad diarholiad gael ei gwblhau, hyd yn oed ar ffurf wedi'i haddasu?</p> <p>Ydy Nac ydy</p> <p>A yw'r asesiad diarholiad wedi cael ei gwblhau eto?</p> <p>Ydy Nac ydy</p> <p>Sut y byddwch yn cynnal yr asesiad diarholiad?</p> <p>Dyddiad arfaethedig yr asesiad diarholiad:</p> <p>Pa gyfran o'r radd derfynol a ddyfernir sy'n dod o'r asesiad diarholiad _____ %</p>
2					
3					
Pa bynciau/meysydd astudio y mae angen eu cyflwyno/ aildysgu?					
Sut y caiff rhain eu cyflwyno cyn yr asesiad?					

[tudalen 13]

Sut y bydd disgyblion yn cael eu paratoi ar gyfer asesiad? e.e. Cyflwyno arferion dwyn i gof gwybodaeth/sgiliau; Cwestiynau o hen bapurau a chynlluniau marcio;	
Sut y cynhelir yr asesiad Nodwch natur y lleoliad, hyd, pwy fydd yn goruchwylio, lefel y rheolaeth, addasiadau a wneir os bydd yr ysgol yn cau neu os bydd disgyblion yn hunanynysu, darpariaeth ar gyfer disgyblion sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol os yw'n briodol.	
Sut y bydd athrawon dosbarth yn rhoi gwybod i ddisgyblion am wybodaeth sy'n ymwneud â'r asesiadau?	
Atodwch enwau unrhyw ddisgyblion PYDd/ADY/PDG gan nodi natur yr hawl a sut y caiff ei bodloni.	
Amlinellwch eich gweithdrefnau ar gyfer marcio, adborth a sicrhau ansawdd (Pwy sy'n gyfrifol am sicrhau bod pob disgybl yn cwblhau'r asesiadau, ac ymchwiliwch i'r rhai nad ydynt wedi gwneud hynny? Tasgau marcio? Y ffordd y caiff y prosesau cymedroli mewnol eu cynnal? Dyddiad arfaethedig, Beth yw maint eich sampl a rheswm? Sut y caiff y sampl ei phennu? A yw grwpiau dysgwyr yn cael eu cynrychioli'n briodol?	
Sut y bydd y gwaith o gwblhau tasgau asesu (a dal i fyny lle bo angen) yn cael ei fonitro?	Trefniadau ar ôl yr asesiad os yw tystiolaeth y dysgwr yn is na'r disgwyl/os nad yw'n gadarn/os yw disgyblion yn absennol:

Llofnodwyd gan y Pennaeth Pwnc
Llofnodwyd gan Bennaeth y Gyfadran
Llofnodwyd gan y Rheolwr Llinell

[tudalen 14]